# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD AWST 2020

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 19eg o Awst, 2020** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Ar-lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Michelle Williams. Yn bresennol roedd Jason Hunt, Huw Rowlands, Nerys Evans, Rhodri Dwyfor, Aeron M Jones ag Eleri Thomas (Clerc). |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Thomas, Tom Ellis, Gwilym Williams, Elin Evans, Peter Roberts a Bryn Hughes. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | NE – eitem 5a) – llwybr Bryngwyn |
| **4.** | **Cadarnhau cofnodion 15fed o Orffennaf, 2020 a materion yn codi** |
| | Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gyda NE yn cynnig ag MW yn eilio. |
| **5.** | **Materion Misol** |
| | a) NE – Llwybr Bryngwyn<br>Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi derbyn dau bris gan Dylan Ffensio, a dau bris gan North Wales Fencing. Penderfynnwyd i dderbyn pris Dylan Ffensio am £1250 gyda MW yn cynnig a HR yn eilio.<br><br>b) Cais am grant Loteri<br>Cadarnhaodd AMJ ei fod wedi dylunio flyers, tudalen dewisiadau a lythyr yn barod i'w dosbarthu o gwmpas yr ardal. Angen tynnu llun y Cadeirydd ag aelod arall gyda'r siec o £9800. Awgrymodd y fyddai'n fuddiol i ofyn i'r Ysgolion ddylunio Logo ar gyfer y Cyngor Cymuned a gwobr i'r ennillydd.<br><br>c) RD – Cerrig yn cau giatiau ar Lwybr Bryngwyn yn fwriadol (Cae'r Sais i Fryngwyn).<br>Eglurodd y clerc y byddai yn anfon copi o'r rhestr llwybrau + map ymlaen i'r Cadeirydd.<br><br>d) PR – Wal ger Mountain Rangers wedi torri – gofynnwyd i'r Clerc adrodd y broblem i'r Adran Priffyrdd, CG.<br><br>e) EE – baw ci ar lon Eifion. Cadarnhaodd AMJ ei fod wedi anfon neges i Steffan Jones, CG ynghyd ag adrodd am broblemau gwagio biniau baw ci yn adraloedd Rhosgadfan a Rhostryfan. Yn ogystal yr oedd yn annog fwy o'r trigolion i ddefnyddio gwefan CG i adrodd problemau, gan bod nifer fawr o'r staff yn gweithio o adref oherwydd yr amgylchiadau Covid19.<br><br>f) EE – Cysgodfannau angen eu glanhau. Adroddwyd bod cyflwr rhai o'r cysgodfannau wedi mynd i edrych yn fler. Eglurodd AMJ fod ganddo ffordd o drio lanhau'r Perspex a byddai'n trio ar un o'r cysodfannau i weld os oedd unrhyw wahaniaeth.<br><br>g) Mynwent Cefnfaes – asesiad risg. Eglurodd y clerc bod BH wedi cyflawni asesiad risg ar y fynwent, gan nad oedd BH yn y cyfarfod, penderfynwyd i'w roi ar agenda'r cyfarfod nesaf.<br><br>h) Hysbysebu swydd y Clerc – Penderfynwyd i roi hysbyseb am Glerc newydd ar y cyfryngau cymdeithasol gyda dyddiad cau mewn oddeutu 3 x wythnos.<br><br>i) RD – sbwriel Lon Wen, Rhosgadfan + ffoes wedi cau – Adroddwyd fod CG wedi glanhau'r ffoes ond gan mai ar y Tir Comin roedd hwn os oedd gan Dion unrhyw |

| | |
|---|---|
| | blaniau i agor ffoesydd o gwmpas yr ardal.<br><br>j) HR – Ffrwd Cae Du – blwch postio angen ei baentio. Derbyniodd y Clerc e-bost gan Royal Mail yn egluro mai pob 5 mlynedd roedd y blychau yn cael eu paentio a bod y rhai yn yr ardal ar y rhestr i'w gwneud yn y flwyddyn 2020-21.<br><br>k) MW – Tan Gaer – gwastraff chwarel wedi ei roi i lawr –AMJ i gysylltu gyda Dion. Esboniodd RD bod arwydd wedi ei roi i fyny gan Tir y Goron yn gofyn i'r perchennog ei dynnu oddi yno.<br><br>l) Asesiad risg – Cae chwarae Rhosgadfan a Rhostryfan. Nodwyd fod twll sylweddol o dan un o'r offer ag angen ei atgyweirio mor fuan a phosib. Derbyniwyd bris o £750 gan y contractwr a penderfynwyd i gario ymlaen gyda'r gwaith gyda MW yn cynnig a AMJ yn eilio.<br><br>m) Gwasanaeth torri gwair yn y pentrefi – derbyniodd y Clerce-bost gan Glerc Cyngor Cymuned Llandwrog yn holi os y byddai unrhyw ddiddordeb gan y Cyngor Cymuned gymryd drosodd cyfrifoldeb am dorri gwair yn y pentrefi. Penderfynodd y Cyngor i beidio i gytuno gyda'r cais hwn gan eu bod digon bodlon cydweithio a CG ar hyn o bryd.<br><br>n) Cyfyngiadau parcio arfaethedig ger Ysgol Rhostryfan – Derbyniwyd rybudd gan GG ei bod yn bwriadu rhoi llinellau melyn yn staf Bro Wyled ger yr Ysgol. Eglurodd AMJ ei fod am gysylltu gyda'r Rheilffordd Eryri i ofyn os oedd yn bosib cael prynu neu logi darn o'r tir ger y llwybr er mwyn gwneud maes parcio. Gofynwyd i'r Clerc anfon neges Swyddogol i'r Rheilffordd hefyd. |
| **6.** | **Derbyn Adroddiadau** |
| | Dim i'w adrodd. |
| **7.** | **Materion Ariannol** |
| | **<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar y 19eg o Awst, 2020</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen (15.07.20) 51,373.08<br>- Trosglwyddo £5,000 i'r cyfrif cyfredol - 5,000.00<br>+ Llog<br><br>**Balans ar derfyn busnes 19eg o Awst, 2020 <u>£46,373.08</u>**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen (15.07.20) **4540.41**<br>+ Trosglwyddo o'r cyfrif cadw i'r cyfrif cyfredol + 5000.00 |

| | |
|---|---|
| | + Grant loteri gymunedol + 9800.00<br><br>- 101470 Cyflog y Clerc (Gorffennaf) 465.20<br>- 101473 Cyllid y Wlad (Gorffennaf) 105.80<br>- 101471 Wyn Williams 2221.00<br>- Aeron Jones (arian ar gyfer chwyn laddwyr) 250.00<br><br>**Balans ar derfyn busnes 19eg o Awst, 2020** **£16,298.41**<br><br>**Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 19eg o Awst, 2020**<br><br>Cyflog y Clerc 465.40<br>Cyllid y Wlad 105.60<br>A. Hughes-Jones, Dyson a'u Cwmni (Payroll) 204.00<br>Aeron M Jones (gwariant arian loteri) 351.02<br>ROSPA (archwiliad cae chwarae) 185.40<br>Cyfrifiaduron Whitten (gwefan y Cyngor) 180.00<br><br>**Cyfanswm** **£1491.42**<br><br>**Gwariant Grant loteri gymunedol**<br>17.07.20 - Arian i mewn i'r cyfrif cyfredol £9800.00<br>19.08.20 – Aeron Jones (deunyddiau gweinyddol) - 351.02<br>£ 9448.98<br><br>Derbyniwyd y taliadau ar gyfer y mis hwn gyda MW yn cynnig a AMJ yn eilio. |
| **8.** | **Materion Cynllunio** |
| | **Materion Cynllunio**<br>a) Cais C20/0562/24/LL - Bryn Derwen, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7NB - dymchwel fferm dy presennol ynghyd a chodi tŷ newydd a gosod tanc trin newydd. Nodwyd fod y cais gwreiddiol wedi ei wrthod oherwydd nid oeddynt wedi derbyn cyngor ar gynllunio. DIM SYLWADAU A DIM GWRTHWYNEBIAD<br>b) Cais C/20/0615/24/AC – White Tower Caravan Park, Saro ag yn n, Caernarfon, Gwynedd LL54 5UH – Ymestyn cyfnod preswylio 52 o garafanau teithiol o 10 mis a hanner i 12 mis. GWRTHWYNEBU oherwydd dim "flood plan" + e-bost Rhodri + Aeron. Byddai bobl yn byw yno yn barhaol wedyn ag yn drael ar adnoddau lleol. Nid oes "flood plan" - Mae'r adroddiad yn y cais yn nodi'n glir bod y safle mewn perygl o lifogydd afonol a morol, ac mae arbennigwyr o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu ymgynghori yn barod ac yn cefnogi'r datganiad hynny. Peth o'r cyngor sydd wedi ei roi yn barod yw:<br>c) Cais C/20/0609/24/LL – Gwredog Isaf, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7PN – Cais ar trosi adeilad allanol presennol i lety gwyliau. DIM SYLWADAU A DIM GWRTHWYNEBIAD. |
| **9.** | **Gohebiaeth a chylchgronau** |
| | a) Hwylusydd Tai Gwledig – adnabod anghenion tai Llanwnda |

| | |
|---|---|
| | Angen tai i bobl ifanc, nid yn unig tai fforddiadwy. Angen cadw trigolion ifanc yn lleol.<br>Newid cymuned wrth cael bobl o lefydd eraill.<br><br>b) Plannu coed / berllan Gymunedol – Prosiect Uwch Gwyrfai<br>Sut goed a lle? Buddiol cael coed ffrwythau e.e. afalau plums a'r gymuned edrych are u hol.<br><br>E-bost gan Dion i ddweud be sydd wedi ei gwblhau a beth ydi'r planiau ar gyfer y dyfodol.<br>Mynychu cyfarfod arlein – mis Hydref? |
| **10.** | **Materion y cyfarfod nesaf** |
| | **Huw yn is-gadeirydd a Bryn yn gadeirydd –angen gofyn i Bryn pa offer mae o ei angen. MW yn cynnig benthyg ipad iddo.**<br><br>**Cwestiynau ar gyfer y cyfarfod gan y cyhoedd ymlaen llaw.**<br><br>**JH – Frondeg /C14/0905/24/LL – wedi ffensio a trampoline**<br><br>**JH – Frondeg – Bungalows i orffen y stad – gwaith heb ei orffen, angen gwneud y lon ar wal ar y gornel wedi disgyn / torri. Pwy sydd yn gwneud yn gwaith adeiladu?**<br><br>**JH – Llwybr i Rhandir Mwyn o Bryngwyn angen ei dorri**<br><br>**NE – Prynu ffon i'r clerc gyda peiriant ateb arno + gliniadur newydd.**<br><br>**Cyfarfod nesaf: CYFARFOD BLYNYDDOL - Nos Fercher, 19eg o Awst 2020**<br>**Lleoliad – Ar-lein drwy Microsoft Teams** |